# Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol
## 10fed Cyfarfod, negeseuon allweddol a gweithredoedd

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod** | Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG) | | | **Dyddiad** | 21.11.2018 |
| **Rhif y Cyfarfod** | 10 | **Amser Dechrau** | 10:00 | **Amser Gorffen** | 16:00 |
| **Presennol** | Peter Davies (Cadeirydd) (Partneriaeth PD),<br>Steve Griffiths (Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain), Mark Russell (Cymdeithas Agregau Morol Prydain), Phil Hollington (Cragen Llŷn a Môn), Gill Bell (Cymdeithas Cadwraeth Forol a Chyswllt Amgylchedd Cymru), Jetske Germing (Fforwm Arfordir Sir Benfro ac Ynni Môr Cymru), Deanna Groom (RCAHMW), Emily Williams (RSPB), Lucy Taylor, Rhoda Ballinger a Tanya Cox (Partneriaeth Aber Afon Hafren), Jim Evans (Cymdeithas Pysgotwyr Cymru), Becky Phillips (JNCC), Emma McKinley (Prifysgol Caerdydd), Tegryn Jones (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro), Nick Barcock (Dŵr Cymru Welsh Water), Dan Crook (Cyfoeth Naturiol Cymru), Hannah Osman (Prosiect Refill),<br>Gareth Bevington, Alison Kitchener, Julia Williams, Rob Floyd, Owain Edwards, Chris Parfitt, Polly Groom, Kathryn Roberts, Tamsin Brown, Amanda Wilson,<br>Rebecca Gorman a Hilary Evans (Llywodraeth Cymru) | | | | |
| **Gwesteion** | Rob Floyd (Llywodraeth Cymru)<br>Alison Kitchener (Llywodraeth Cymru)<br>Owain Edwards (Llywodraeth Cymru)<br>Polly Groom (Llywodraeth Cymru)<br>Fernanda Balata (Y Sefydliad Economeg Newydd)<br>Paul Renfro (Fforwm Arfordir Sir Benfro)<br>Tamsin Brown (Llywodraeth Cymru)<br>Jasmine Sharp (Cyfoeth Naturiol Cymru)<br>Lisa Phillips (Cyfoeth Naturiol Cymru) | | | | |
| **Ymddiheuriadau** | Graham Rees (Llywodraeth Cymru), Peter Barham (Grŵp Defnyddwyr a Datblygwyr Gwely'r Môr), Neville Rookes (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru), Mike Parry (Partneriaeth Pwllheli), Lesley Jones (Cadwch Gymru'n Daclus), David McDermott (Cymdeithas Harbwr Saundersfoot), David Tudor (Ystâd y Goron), Jonathan Monk (Porthladd Aberdaugleddau). | | | | |

| # | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| 1. | Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau |
| 2. | Diweddariad ar Brexit – Rob Floyd, Llywodraeth Cymru |
| 3. | Parodrwydd ar gyfer Diwrnod Cyntaf Brexit – Alison Kitchener, Llywodraeth Cymru |
| 4. | Brexit a'n Moroedd – Owain Edwards, Llywodraeth Cymru |
| 5. | Canllaw Treftadaeth Forol – Polly Groom, Cadw, Llywodraeth Cymru |
| 6. | Y Ganolfan Economïau Arfordirol – Fernanda Balata, Y Sefydliad Economeg Newydd |
| 7. | Datblygu Banc Maethynnau – Paul Renfro, Fforwm Arfordir Sir Benfro |
| 8. | Trwyddedu Morol – Tamsin Brown, Llywodraeth Cymru, Jasmine Sharp a Lisa Phillips, Cyfoeth Naturiol Cymru. |

## Cyflwyniad

Mae Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (y Grŵp) yn gwethredu fel fforwm ar gyfer trafodaeth a dadl, yn ogystal â chymorth a chyngor i Lywodraeth Cymru, ar bolisi morol ac arfordirol strategol. Dyma'r grŵp rhanddeiliaid cyffredinol ar gyfer gwaith Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru, sy'n eistedd ochr yn ochr â Grŵp Gweithredu ar Bysgodfeydd Môr Cymru, sef fforwm arweiniol Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiant pysgodfeydd.

Mae'r Grŵp yn cynnwys 32 o randdeiliaid arweiniol, sy'n cynrychioli buddiannau'r holl sectorau sydd â buddiant neu fuddsoddiad yn y Sector Morol yng Nghymru. Mae manylion y sectorau a'r sefydliadau arweiniol wedi'u cynnwys yng Nghylch Gorchwyl y Grŵp.

# Negeseuon Allweddol ac Allbynnau

## Eitem 1: Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

| Negeseuon allweddol | Camau Gweithredu |
|---|---|
| Cafwyd nifer o ymddiheuriadau, gan gynnwys Graham Rees, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Môr a Physgodfeydd).<br><br>Croesawodd y Cadeirydd Gareth Bevington ac Alison Kitchener i'r cyfarfod.<br><br>Mae Gareth Bevington newydd ei benodi fel y Dirprwy Gyfarwyddwr ar gyfer Negodiadau Morol a Rhyngwladol, a bydd yn gweithio ochr yn ochr â Graham Rees.<br><br>Mae Alison Kitchener newydd ei phenodi fel Dirprwy Bennaeth yr Is-adran Môr a Physgodfeydd ac mae'n gweithio i baratoi'r diwydiant pysgota ar gyfer gadael yr UE gan gynnwys parodrwydd ar gyfer diwrnod cyntaf Brexit.<br><br>Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau o gyfarfod y Bartneriaeth Moroedd Glân ar 11 Rhagfyr.<br><br>Hysbysodd y Cadeirydd y grŵp y bydd galwad i aelodau ym mis Ionawr i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen ynglŷn â dynodi Parthau Cadwraeth Morol (MCZ). Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Sharon Davies, o'r Tîm Cadwraeth a Bioamrywiaeth.<br><br>Ymddiheurodd y Cadeirydd am na allai gynnwys yr holl eitemau a gyflwynwyd ar gyfer yr agenda oherwydd bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth i faterion yn ymwneud â Brexit.<br><br>Roedd 3 cham gweithredu'n deillio o gyfarfod llawn diwethaf y Grŵp ym mis Mehefin<br><br>**2.1** Cynllun Gweithredu Grŵp Llywio MPA – ymgynghoriad<br><br>Bu Grŵp Llywio MPA yn ystyried y mater hwn yn ei gyfarfod ar 2 Gorffennaf. Barnwyd nad oedd angen ymgynghori ymhellach gan fod aelodau'r Grŵp, drwy'r Diweddariadau Defnydd Morol, eisoes wedi cael y cyfle i gynnig sylwadau ar strwythur a chynnwys Fframwaith Rheoli Rhwydwaith a | **1.1** Aelodau i ystyried gwefan Busnes Cymru – Cymru a'r Môr ac i anfon cynnwys a syniadau at hilary.evans2@gov.wales |

| | |
|---|---|
| Chynllun Gweithredu'r MPA; y pum egwyddor rheoli a'r meini prawf blaenoriaethau a ddefnyddir i sgorio camau gweithredu sydd i'w cynnwys yn y Cynllun Gweithredu.<br><br>Fodd bynnag, cytunwyd i gyhoeddi'r meini prawf llawn ar gyfer sgrinio a sgorio'r camau fel atodiad i Gynllun Gweithredu 2018-19.<br><br>Cytunodd y Grŵp Llywio hefyd i gynhyrchu Adroddiad Blynyddol ar gyflawni camau rheoli'r MPA. Er mwyn cofnodi camau sy'n cael eu cyflawni ledled Cymru ar lefel fwy lleol mae'r Grŵp Llywio'n bwriadu cyhoeddi cais am wybodaeth sy'n rhoi pwyslais ar y cynnydd tuag at gyflawni unrhyw un o bum egwyddor rheoli'r MPA. Bydd aelodau'r Grŵp yn cael cyfle i gyfrannu at yr ymarferiad hwn.<br><br>**2.3** Aelodau i gael golwg ar wefan Cymru a'r Môr ac i anfon adborth at Becky a Hilary.<br><br>**2.4** Aelodau i enwebu cynrychiolwyr cyfathrebu a all gael hyfforddiant i baratoi cynnwys ychwanegol ar gyfer y wefan.<br><br>Pwysodd y Cadeirydd ar yr aelodau i gael golwg ar y wefan ac i weithio â Hilary a Becky i gynhyrchu mwy o gynnwys. Mae'r gwaith hwn yn parhau. | |

<u>Eitem 2: Diweddariad ar Brexit</u>

| **Negeseuon Allweddol** | **Camau Gweithredu** |
|---|---|
| Cyflwynodd Rob Floyd, Pennaeth Pontio Morol o'r UE ddiweddaraf ar Brexit.<br><br>• Pwysleisiodd Rob fod hwn yn faes sy'n newid yn barhaus o un diwrnod i'r llall, ond rhoddodd drosolwg i'r aelodau o'r datblygiadau diweddaraf.<br>• Mae'r UE a Llywodraeth y DU wedi cytuno ar lefel dechnegol ar destun drafft ar gyfer 'Cytundeb Ymadael'.<br>• Nid yw Gweinidogion Cymru'n cefnogi'r Ddeddf Ymadael, ac maent am weld aelodaeth o | |

| | |
|---|---|
| undeb tollau'n parhau; i sicrhau mynediad llawn i'r farchnad sengl ac ymagwedd synhwyrol tuag at fewnfudo.<br>• Mae'r Ddeddf Ymadael yn trosglwyddo holl gyfreithiau'r UE i gyfreithiau'r DU.<br>• Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar hyn o bryd i ailddrafftio a chyflwyno Offerynnau Statudol i sicrhau bod gan Gymru fframwaith deddfwriaethol ymarferol ar ôl Brexit.<br>• Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon ar y cyfan â'r Bil Pysgodfeydd sydd wedi cael ei drafftio gan y DU – fodd bynnag, mae rhai pryderon.<br>• Pwysleisiodd Rob eto ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i gynnal a gwella ein safonau amgylcheddol a bod ein hadnoddau naturiol yn hanfodol i ddyfodol Cymru ar ôl gadael yr UE. | |

## Eitem 3: Parodrwydd ar gyfer Diwrnod Cyntaf Brexit (D1R)

| Pwyntiau Allweddol | Camau Gweithredu |
|---|---|
| Cafwyd diweddariad llafar gan Alison Kitchener ar baratoadau Parodrwydd ar gyfer Diwrnod Cyntaf Brexit.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o sicrhau dyfodol positif i bysgodfeydd mewn byd ar ôl Brexit; mae tair sefyllfa bosibl.<br><br>**Pysgodfeydd a chyfnod pontio:** Mae Llywodraeth Cymru am weld bargen â'r UE sy'n caniatáu ar gyfer cyfnod pontio, a fyddai'n amharu dim neu gyn lleied â phosibl ar y diwydiant, cyfranogiad llawn yn y farchnad sengl a'r undeb tollau. Felly, byddai allforion yn parhau fel maent yn awr tan ddiwedd y cyfnod pontio ym mis Rhagfyr 2020, pan fyddai trefniadau newydd yn dod i rym. Fodd bynnag, mae posibilrwydd y bydd y DU yn gadael heb daro bargen.<br><br>**Pysgodfeydd gyda bargen fasnachu:** Gallai unrhyw fargen fasnachu olygu cyflwyno tariffau. Mae'n bosibl hefyd efallai y bydd yr UE yn mynnu bod gan bysgod a physgod cregyn dystysgrifau daliadau a thystysgrifau iechyd allforio (a allai gael eu cyhoeddi gan Awdurdodau Lleol, ond gallant olygu cost). Byddai'n rhaid i allforion pysgod a physgod cregyn fynd trwy Bwynt Archwilio Ffiniau (BIP); nid yw Calais yn BIP, felly bydd yn rhaid i allforion ddod o hyd i lwybrau arall. Rhagwelir y bydd problemau seilwaith a chapasiti yn BIP yr UE ac mae oedi'n bosibl. | **3.1** Aelodau i rannu'r Bwletin Pysgodfeydd Brexit â'u rhwydweithiau rhanddeiliaid. |

| | |
|---|---|
| **Pysgodfeydd heb fargen fasnachu:** Os bydd y DU yn gadael heb fargen fasnachu ac y bydd yn drydedd wlad heb statws rhestredig, ni fydd yn bosibl masnachu â'r UE. Efallai na chaiff llongau tramor bysgota yn nyfroedd Cymru. Mae'r DU yn elwa ar fynediad yn sgil cytundebau masnachu'r UE â dros 50 o wledydd eraill e.e. De Korea. Bydd y rhain yn dod i ben. Mae'r DU wedi dechrau negodi cytundebau newydd, ond nid ydynt yn barod eto a phan fyddant wedi'u cwblhau, gallant gynnwys tariffau.<br><br>Mae'n hanfodol bod busnesau pysgota'n paratoi ar gyfer ymadael â'r UE.<br><br>I helpu'r diwydiant i baratoi mae'r Tîm D1R wedi cyhoeddi Bwletin Brexit. I wneud yn siŵr eich bod yn cael copi ymunwch â'r **Gofrestr Rhanddeiliaid**, a fydd yn sicrhau eich bod yn cael yr holl gylchlythyrau neu gallwch gofrestru ar gyfer y bwletin Brexit yn unig:<br><br>https://public.govdelivery.com/accounts/UKWALES/subscriber/new?topic_id=UKWALES_160<br><br>https://public.govdelivery.com/accounts/UKWALES_CY/subscriber/new?topic_id=UKWALES_CY_86 | |

## Eitem 4: Gweithdy ymgynghori Brexit a'n Moroedd

| Negeseuon Allweddol | Camau Gweithredu |
|---|---|
| Disgrifiodd Owain Edwards y ddogfen ymgynghori ddrafft *"Brexit a'n Moroedd"* sydd â'r nod o gynnig trosolwg o safbwynt cyfredol Llywodraeth Cymru ac mae'n gwahodd sylwadau ar wahanol agweddau ar bolisi morol a physgodfeydd.<br><br>Roedd set o ymrwymiadau a chynigion wedi'u cyflwyno i aelodau cyn y cyfarfod ac roeddent yn cytuno ar y cyfan â'r cynnwys.<br><br>Nododd sawl rhanddeiliad yr angen i ddiffinio'n eglur gwmpas yr ymgynghoriad o'r cychwyn, yn ogystal â'r hyn fydd yn newid, gan nodi'n eglur yr hyn mae'r Llywodraeth yn ymgynghori arno. | **4.1** Aelodau i nodi a rhannu'r ymgynghoriad arfaethedig ar 'Brexit a'n Moroedd' â'u rhwydweithiau. |

| | |
|---|---|
| Er y byddai'r effaith yn fawr ar bysgodfeydd Cymru, mae'n bwysig peidio ag esgeuluso'r ochr Forol, a'r hyn sydd ganddi i'w gynnig. Mae amgylchedd morol o ansawdd uchel yn fuddiol nid yn unig o safbwynt amgylcheddol, ond mae buddiannau posibl eraill hefyd fel denu twristiaeth. Gallai refeniw a godid drwy gyfleoedd pysgota yn y dyfodol gael ei fwydo'n ôl i'r diwydiant ac yn fwy eang.<br><br>O ran cyfleoedd heblaw bwyd, gofynnir am enghreifftiau gwell gan y rhanddeiliaid.<br><br>Yn dilyn cyfarfod ag aelodau WMAAG, mae'r ymgynghoriad yn awr yn mynd drwy gamau drafftio a chliriadau.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio cyhoeddi'r ymgynghoriad y flwyddyn nesaf. Bydd y cyfnod ymateb i'r ymgynghoriad yn para am 12 wythnos ar ôl ei gyhoeddi. | |

## Eitem 5: Canllaw Treftadaeth Forol

| Negeseuon Allweddol | Camau Gweithredu |
|---|---|
| Cafwyd cyflwyniad gan Polly Groom, Cadw, Llywodraeth Cymru ar bwysigrwydd treftadaeth forol a chafodd aelodau eu hysbysu o'r Ymgynghoriad Canllaw Treftadaeth Forol.<br><br>Mae amgylchedd hanesyddol parthau arfordirol ac ar y môr yn agwedd unigryw ar ein treftadaeth ddiwylliannol. Mae hefyd yn ased economaidd a chymdeithasol pwysig.<br><br>Mae egwyddorion Cadw yn cael eu hadleisio yn natganiad polisi morol y DU sy'n sail i gynllunio morol.<br>Gweler **Egwyddorion Cadwraeth** (cyhoeddwyd yn 2011).<br><br>Bydd Cadw yn cyhoeddi dogfen ganllaw a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn 2019. | **5.1** Aelodau i nodi a rhannu â'u rhwydweithiau yr ymgynghoriad arfaethedig ar 'Rheoli Amgylchedd Morol Hanesyddol Cymru. |

| | |
|---|---|
| Rheoli Amgylchedd Morol Hanesyddol Cymru<br><br>• Dogfen ganllaw a gynhyrchwyd i ategu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016<br>• Mae'n egluro safbwynt Cadw ar yr amgylchedd morol hanesyddol<br>• Mae'n nodi'r ddeddfwriaeth a'r trefniadau caniatáu perthnasol<br>• Cyfeiriadau at ragor o wybodaeth<br><br>Bydd Cadw'n defnyddio dynodiadau neu gofrestru fesul achos i warchod y pwysicaf o'n safleoedd tanddwr. Dywed yn benodol fod Egwyddorion Cadwraeth yn gymwys o dan ddŵr yn ogystal ag ar dir. | |

## Eitem 6: Economïau Arfordirol, Y Sefydliad Economeg Newydd (NEF)

| Negeseuon Allweddol | Camau Gweithredu |
|---|---|
| Cafwyd cyflwyniad gan Fernanda Balata, y Sefydliad Economeg Newydd (NEF) ar y cynnydd ar y prosiect Bargen Las Newydd a'i waith â chymunedau arfordirol.<br><br>Cenhadaeth yr NEF yw gweddnewid y system economaidd fel y bydd yn gweithio i bobl a'r blaned. Mae NEF yn gweithio ar ystod o bynciau sy'n bwysig i gymdeithas, gan gynnwys pysgodfeydd a chadwraeth forol.<br><br>Mae'r **Fargen Las Newydd** yn fframwaith a chynllun gweithredu a fydd yn arwain at well swyddi, llesiant a chydnerthedd economaidd i gymunedau arfordirol drwy amgylchedd arfordirol a morol iachach.<br><br>Mae angen gweddnewidiad economaidd ar gymunedau arfordirol.<br>Yr amgylchedd arfordirol a morol yw eu hased unigryw. Gall moroedd iachach a mwy cynhyrchiol fod yn gatalydd i fwy o swyddi a swyddi gwell.<br>Mecanweithiau ar gyfer newid:<br>• Angen rhoi rheolaeth i bobl<br>• Buddsoddi mewn cymunedau arfordirol a'r amgylchedd arfordirol a morol | **6.1** Aelodau i roi eu rhwydweithiau mewn cysylltiad â Fernanda i gynnal trafodaethau fernanda.balata@neweconomics.org<br><br>**6.2** Aelodau i nodi'r cyhoeddiadau canlynol:<br><br>2015 **Blue New Deal: good jobs for coastal communities through healthy seas**<br><br>2016 **Turning Back to the Sea: a Blue New Deal to revitalise coastal communities**<br><br>2017 **Not in the same boat: the economic impact of Brexit across UK fishing fleets**<br><br>2018 **Goblygiadau Brexit i Gyfleoedd Pysgota yng Nghymru** |

| | |
|---|---|
| • Mae angen gwneud mwy i newid y cydbwysedd grym i gymunedau arfordirol, meithrin galluoedd ac ymgysylltu.<br>• Mae angen creu cyfleoedd i alluogi rhanddeiliaid morol ac arfordirol i gwrdd; ffyrdd effeithiol i rannu a chyfathrebu; a chymorth sy'n eu galluogi i gydweithredu'n effeithiol.<br>• Rhaid i brofiadau lleol o fywyd arfordirol adleisio â phenderfynwyr a'u defnyddio i ailffurfio polisi<br><br>Pwyntiau trafod yn ymwneud â'r canlynol<br>• Sut all fframwaith Bargen Las Newydd weithio i Gymru?<br>• Beth yw'r blaenoriaethau yng Nghymru i sicrhau gwell economïau arfordirol ac amgylchedd morol iachach ar ôl Brexit?<br>• Sut all ymagweddau newydd tuag at reoli pysgodfeydd weithio â'i gilydd ag adfywio economaidd arfordirol a chadwraeth forol?<br><br>• Holodd y grŵp am y gwahaniaeth rhwng arfordirol a gwledig gan fod ardaloedd arfordirol Cymru'n rhai trefol yn bennaf.<br>• Sut mae penderfynu beth yw cymuned arfordirol – dim penderfyniad penodol ond yn seiliedig ar economi arfordirol.<br>• Ymgysylltu blaenorol â Physgotwyr Penfro, Fforwm Arfordir Sir Benfro, Croeso Cymru, Awdurdodau Lleol, Prifysgol Abertawe.<br>• Nodwyd fod y grŵp Moroedd ac Arfordiroedd wedi edrych ar y cwestiynau hyn, yn benodol y rhwydwaith Awdurdodau Arfordirol.<br>• Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adroddiad i edrych ar effaith Brexit ar Bysgodfeydd; mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gofyn am adroddiadau dadansoddi tebyg yn y maes.<br>• Enwodd yr aelodau grwpiau y gallai NEF weithio/cynnal trafodaethau â hwy:<br><br>Yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau; y Gronfa Cymunedau Arfordirol a Fforwm Arfordir Sir Benfro; fforwm Grwpiau Arfordirol Cymru; Sefydliad John Allen – Rheolaeth arfordirol.<br><br>Gofynnwyd i aelodau roi eu rhwydweithiau mewn cysylltiad â Fernanda i gynnal trafodaethau **fernanda.balata@neweconomics.org** | |

## Eitem 7: Datblygu Banc Maethynnau yn Nyfrffordd Aberdaugleddau

| Negeseuon Allweddol | Camau Gweithredu |
|---|---|
| Cafwyd cyflwyniad gan Paul Renfro ar Adeiladu Cydnerthedd mewn Dalgylchoedd (BRICs).<br>Gall sicrhau datblygiad economaidd cynaliadwy gan roi sylw i statws cadwraeth anffafriol ACA Sir Benfro Forol, statws ecolegol cymedrol Dyfrffordd Aberdaugleddau a gallai helpu i gyflenwi dŵr yfed glân i bobl Sir Bendro.<br><br>EEP – Partneriaeth Menter Ecosystem Banc-Eco<br>• Cynllun Masnachu Maethynnau sy'n seiliedig ar y farchnad<br>• Gall tirfeddianwyr sy'n ymrwymo i wella a chyfoethogi arferion rheoli ar eu tir sy'n rhagori ar y rheoliadau gynhyrchu 'Credydau maethynnau'<br>• Gallant wedyn werthu'r credydau hyn, gan gynhyrchu arian i reoli'r safle<br>• Gellir defnyddio credydau i wrthweithio effeithiau llwytho maethynnau o ganlyniad i ddatblygiadau yn y dyfodol<br>• Gan ddefnyddio cymhareb fasnachu o 2:1 neu 4:1 gyda phob achos o fasnachu byddai lefelau maethynnau sy'n mynd i'r dalgylch yn lleihau<br>• Gellid hefyd werthu'r credydau i rai sy'n dymuno buddsoddi mewn canlyniadau cadwraethol, gan gynnwys Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt a llywodraeth<br>Pwyntiau Allweddol – Gallai cynllun maethynnau gynhyrchu budd economaidd ac amgylcheddol, lleihau risg i Lywodraeth Cymru o dorri cyfraith yr UE a lleihau risg o ddim datblygiad, i faes o gyfleoedd economaidd cyfyngedig.<br><br>Byddai cyfnewid credydau'n cael ei gymeradwyo a'i oruchwylio gan asiantaeth reoleiddio, ac a ddylai fod yn gorff newydd.<br><br>Gofynnodd aelodau sut y byddai hyn yn gweithio ochr yn ochr â'r rheoliadau presennol e.e. cyhoeddiad diweddar Ysgrifennydd y Cabinet i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol.  Dywedodd Paul Renfro y gallai'r system hon weithio o fewn deddfwriaeth i gynyddu uchafswm y gostyngiadau ymarferol. | |

## Eitem 8: Sesiwn Trwyddedu Morol

| Negeseuon Allweddol | Camau Gweithredu |
|---|---|
| Cafwyd cyflwyniad ar y cyd gan Tamsin Brown (Llywodraeth Cymru) a Jasmine Sharp a Lisa Phillips (Cyfoeth Naturiol Cymru). Roedd y cyflwyniad yn rhoi trosolwg o'r system trwyddedu morol gan gynnwys y ffioedd newydd a gyflwynwyd y llynedd.<br><br>Nid oedd dim ystyriaethau pwysig yn ymwneud â Pharodrwydd ar gyfer Diwrnod Cyntaf Brexit yn gysylltiedig â thrwyddedu morol.<br><br>Aelodau i gofrestru i wneud yn siŵr eu bod yn cael y cylchlythyr trwyddedu morol drwy'r Gofrestr Rhanddeiliaid, ac i ledaenu'r wybodaeth drwy eu rhwydweithiau. | **8.1** Aelodau i feddwl am yr hyn yr hoffent ei glywed gan y tîm trwyddedu morol yn y dyfodol. Cysyllter â: marinelicensing@naturalresourceswales.gov.uk |

## Eitem 9: Crynodeb a myfyrio

| Negeseuon Allweddol | Camau Gweithredu |
|---|---|
| Gofynnwyd i aelodau sicrhau eu bod yn cofrestru â'r **Gofrestr Rhanddeiliaid** gan mai'r Gofrestr yn awr yw'r brif gronfa ddata a ddefnyddir gan yr Is-adran Môr a Physgodfeydd i gadw manylion aelodau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r GDPR ac i gadw cofnodion yn gyfoes.<br><br>Cyflwynodd y Cadeirydd Hannah Osman – Cydlynydd newydd y Prosiect Refill. Cyhoeddodd Hannah ddyddiadau ar gyfer digwyddiadau lansio Refill, a oedd wedi'u dosbarthu ar wahân hefyd i aelodau ar ffurf e-bost ar ôl y cyfarfod.<br><br>Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch i'r holl gyflwynwyr am eu hamser. Anogwyd yr aelodau i feddwl am y cyflwyniadau ac i ledaenu'r wybodaeth ymhlith eu rhwydweithiau rhanddeiliaid. | **9.1** Gofynnwyd i aelodau sicrhau eu bod yn cofrestru â'r **Gofrestr Rhanddeiliaid** |

---------